



PROTOCOL AR GYFER NEILLTUO MATERION I GYFARFOD PREIFAT O'R BWRDD (a'r Pwyllgorau)

Mai 2021
Fersiwn 1

Cyflwyniad

Yn unol â Rheolau Sefydlog Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal ei gyfarfodydd Bwrdd yn gyhoeddus. Mae Rheolau Sefydlog Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu'r sail, ym mharagraff 7.5.2 ar gyfer cyfarfod a thrafod eitemau perthnasol yn breifat. Ar brydiau, gelwir hyn yn 'Gyfarfod Preifat y Bwrdd'. Sail gyfreithiol yr adran hon o'r Rheolau Sefydlog yw'r Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, adran 1 (2).

Bydd adegau pan fydd hi'n fwy priodol ystyried busnes y sefydliad mewn sesiwn breifat, a hynny er mwyn sicrhau nad yw'r busnes sy'n cael ei ystyried yn niweidiol i fudd y cyhoedd – hynny yw, sicrhau nad yw'n effeithio'n andwyol neu'n dylanwadu'n annheg ar y cyhoedd.

Paratowyd y ddogfen hon felly i helpu nodi'r rhesymau sydd fwyaf tebygol o fod yn berthnasol i ddeunydd a gaiff ei ystyried gan y Bwrdd mewn cyfarfodydd preifat.

Gwerthoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Thryloywder

Ein gwerthoedd yw '**cydweithio, gydag ymddiriedaeth a pharch, i wneud gwahaniaeth**'. Rydym yn gweithredu ar y sail bod tryloywder a bod yn agored wrth wraidd ein tefniadau llywodraethu a'r broses o wneud penderfyniadau; ac yn gweithio ar y sail bod popeth yn cael ei drafod yng nghyfarfod cyhoeddus y Bwrdd oni bai bod rheswm penodol i beidio â gwneud hynny.

Ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu a ddylai mater gael ei neilltuo i gyfarfod Preifat o'r Bwrdd

Wrth benderfynu a ddylai mater gael ei neilltuo i agenda cyfarfod Preifat o'r Bwrdd, mae nifer o ffactorau i'w hystyried gan gynnwys:

- A yw'r eitem neu'r deunydd yn cynnwys data personol;
 - A yw'n fater sy'n gyfrinachol neu'n fasnachol sensitif;
 - A fyddai'r eitem yn tansilio hyder y cyhoedd neu'n achosi pryder gormodol neu niwed posibl i'r cyhoedd;
 - A oes unrhyw faterion yn ymwneud ag enw da i'w hystyried – naill ai o ran Iechyd Cyhoeddus Cymru neu unigolion, partneriaid neu randdeiliaid eraill;
 - A yw'r dogfennau ar ffurf drafft i'w cyhoeddi yn y dyfodol;
 - A yw'r eitem yn cynnwys cyngor gyfreithiol neu a yw'n destun braint gyfreithiol;
 - A allai'r mater fod yn niweidiol i waith y sefydliad;
 - A yw datgelu'r mater wedi'i atal drwy gyfraith.
-

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr a'i nod yw rhoi enghreifftiau o ffactorau y gellir eu hystyried.

Mae'n bosibl y caiff rhai materion eu cynnal mewn Sesiwn Gyhoeddus ond na chaiff y dogfennau eu rhyddhau i'r cyhoedd tan y bydd y ddogfen yn derfynol ac wedi'i chyhoeddi; er enghraifft adroddiad drafft.

Rheoli Cyfarfodydd y Bwrdd a gynhelir yn Breifat

Pan fydd y Bwrdd yn cyfarfod yn ffurfiol, bydd y mwyafrif o'r eitemau ar yr agenda yn cael eu trafod yn gyhoeddus, ac mae hyn yn cyfrif am y rhan fwyaf o amser cyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd. Bydd papurau'r Bwrdd yn cynnwys rhesymeg ffurfiol yn amlinellu'r rhesymau dros drafod eitem mewn sesiwn breifat. Mae'r agendâu ar gyfer sesiynau cyhoeddus a phreifat y Bwrdd yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Efallai y bydd adegau lle y caiff cyfarfod preifat o'r Bwrdd ei alw heb rybudd cyhoeddus er mwyn i'r Bwrdd allu ystyried unrhyw fater brys a chyflawni ei rolau cyfreithiol a statudol.

Penderfyniad i ystyried eitemau mewn sesiwn breifat

Bydd y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid trafod deunydd mewn sesiwn breifat neu gyhoeddus yn cael ei wneud gan y Cadeirydd gyda chefnogaeth y Prif Weithredwr, ar ôl cael cyngor gan Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd a'r Swyddog Gweithredol arweiniol, yn unol â'r protocol hwn. Gellir gofyn am gyngor hefyd gan unrhyw aelod arall o staff neu ymgynghorydd proffesiynol yn cynnwys y Prif Swyddog Risg sef Swyddog Diogelu Data penodedig y sefydliad.

Bydd papurau'r Bwrdd yn esbonio'r rheswm dros drafod eitem mewn Sesiwn Breifat a lle bo hynny'n berthnasol yn nodi'r dyddiad pryd y gellir cyhoeddi'r wybodaeth, er enghraifft dyddiad cyhoeddi adroddiad.

Adolygu'r Protocol hwn ac Adborth

Bydd y protocol hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol o bryd i'w gilydd i sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion y sefydliad ac yn parhau i fod yn gyson ag ysbryd ein Rheoliadau a'n Rheolau Sefydlog. Bydd cofnod o eitemau a ystyrir mewn sesiwn breifat yn cael ei gadw a'i ddadansoddi i lywio'r adolygiad blynyddol.

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ynghlŷn â'r protocol hwn ac yn fodlon ymateb i unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r protocol. E-bostiwch Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd ar PHW.CorporateGovernance@wales.nhs.uk
